



**1,000 O
LEISTIAU
CYMRU**

CREU GWADDOL PROFIAD O OFAL AR GYFER CYMRU

Annwyl Ddarpar Brif Weinidog, rydym ni yn blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac yn aelodau o elusen Voices From Care Cymru. Fel Prif Weinidog chi fydd ein prif riant corfforaethol. Mae'n bosib y byddwch yn ein hadnabod fel plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal, fel y'i diffinnir dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond mae'n well gennym gael ein galw'n bobl sydd â phrofiad o ofal. Ar hyn o bryd mae 6,846 ohonom mewn gofal, gyda 5,400 arall yn blant wedi eu mabwysiadu; sydd hefyd yn rhan o'n cymuned o bobl sydd â phrofiad o ofal. Mae rhesymau lu pam ein bod mewn gofal, ond mae pob un ohonom wedi profi trawma yn ein plentyndod. Mae llawer ohonom yn byw mewn cartrefi maeth (3,520 o blant) a gofal preswyl (470 o blant) ond rydym hefyd yn byw mewngofal gan berthynas, gydag aelod o'r teulu (1,348 o blant). Rydym yn aml yn cael ein gwneud i deimlo'n wahanol a'n stigmatiddio am nad ydym yn 'byw gyda rhiant biolegol'. Rydym am i Gymru arwain y ffordd gan roi'r gofal inni a fydd yn ein galluogi i ffynnu, i deimlo'n ddiogel a chael ymdeimlad o berthyn. Credwn fod gennych chi a'ch llywodraeth y cyfle i wneud hyn. Yr unig beth a ofynnwn yw eich bod yn gwranddo arnom a'n bod yn cael ein clywed.

Eich Ymrwymiad

Fel Prif Weinidog gofynnwn am eich ymrwymiad i wrando ar 1,000 o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal o bob cwr o Gymru i gyd-gynhyrchu system ofal sy'n seiliedig ar ddyheadau a pherthnasau.

Blaenoriaethau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Rydym wedi cyfrannu at Voices From Care Cymru; yr unig elusen annibynnol sy'n ymroi'n gyfan gwbl i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru, ynghylch y materion sydd o'r pwys mwyaf inni. Y rhain yw: 1. Iechyd Meddwl a Lles². Perthynas rhwng Brodyr a Chwirydd³. Cael ein caru⁴. Torri'r Stigma⁵. Sefydlogrwydd Rydym am weld system ofal sydd yn darparu'r sefydlogrwydd, y cymorth a'r cariad sydd ei angen ar holl blant a phobl ifanc i ffynnu. Gall y system ofal gyflawni hyn. Fodd bynnag, fe wyddom fod y system yn creu ansefydlogrwydd i ormod o blant a phobl ifanc, sydd yn dwysau'r trawma maent eisoes wedi ei brofi. Mae Voices From Care Cymru a'n Grŵp Ymgynghorol ar gyfer pobl ifanc yn galw am gyfres o newidiadau rhagweithiol cyn daw etholiadau Mai 2021.



1,000 O
LEISIAU
CYMRU

EIN GOFYNION ALLWEDDOL:

1) Deddfwriaeth i sicrhau rhagoriaeth mewn Rhianta Corfforaethol.

Drwy estyn dyletswyddau Rhianta Corfforaethol mewn deddfwriaeth i'r holl gyfrif cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid ymgorffori'r cymorth mewn deddfwriaeth hwn ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Dylai pob Corff Rhianta Corfforaethol ddatblygu strategaeth sy'n amlinellu sut byddant yn deall yn well, yn asesu anghenion, yn hyrwyddo diddordebau ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Dylai'r cabinet ddangos ymrwymiad drwy greu gweinidog plant a phobl ifanc a fydd yn gweithredu fel amddiffynnydd allweddol ar gyfer hawliau plant sydd â phrofiad o ofal nes eu bod yn 25 mlwydd oed.

2) Darparu'r canol sydd ar goll mewn gwasanaethau iechyd meddwl a lles.

Mae angen diwygio'r gwasanaethau Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae gan blant sydd â phrofiad o ofal yr hawl i gael cymorth iechyd meddwl, ac mae llawer o blant sydd â phrofiad o ofal yn cael ei gadael i lawr am nad yw'r cymorth iechyd meddwl cywir yn cael ei ddarparu iddynt ar yr amser cywir. Dylai Rhieni Corfforaethol megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg weithio gyda'i gilydd i ddarparu ymagwedd gydgyssylltiedig tuag at wasanaethau emosiynol ac iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal; Diwygio sut rydym yn asesu llesiant plant sydd â phrofiad o ofal drwy gydol eu siwrnai ofal; Cael gweithwyr proffesiynol sydd yn hyderus o ran deall dulliau sy'n seiliedig ar drawma. Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i atal pobl ifanc rhag bownsio o wasanaeth i wasanaeth, gan arwain at beidio â mynd i'r afael yn llawn â'u problemau, gan waethygu pan maent yn oedolion. I'r rhai mwyaf anghenus, dylid darparu adnoddau wedi eu neilltuo'n benodol gan CAHMS ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae angen gwasanaeth iechyd meddwl a lles cynhwysfawr ar Gymru sydd yn llenwi'r bwlch canol sydd ar goll ar hyn o bryd; gan ddiwallu anghenion ein plant mwyaf agored i niwed.



1,000 O
LEISIAU
CYMRU

EIN GOFYNION ALLWEDDOL:

3) Dylai Perthnasau Cariadus sy'n Parhau fod wrth graidd taith person ifanc sydd yn derbyn gofal:

Dylai perthnasau fod yn brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad a wneir am ofal person ifanc, gan ddarparu cysondeb drwy eu plentyndod hyd nes eu bod yn oedolyn. Mae perthnasau cryf yn darparu ymdeimlad o sefydlogrwydd, hunaniaeth a pherthyn i berson ifanc. Gall y perthnasau yma gynnwys unigolion o asiantaethau statudol, gofaluwr maeth cyfredol ac o'r gorffennol, aelodau o'r teulu a ffrindiau. Dylai adolygiad gofal person ifanc eu grymuso, gan ganiatáu i blant a phobl ifanc adnabod pwy sy'n bwysig iddynt. Sicrhau bod gwaith taith bywyd yn darparu ymdeimlad o hunaniaeth gyfan i berson ifanc; nid dim ond teulu. Yn bwysicaf oll, ni ddylai unrhyw berson ifanc gael eu gwahanu oddi wrth eu brodyr a'u chwirydd, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, a dylid gosod yr un pwysigrwydd ar 'gyswllt' gyda brodyr a chwirydd â rhieni biolegol.

4) Creu Ymrwymiad Ymadawyr Gofal Cymru:

Ymrwymiad cenedlaethol dan arweiniad y Prif Weinidog tuag at bobl sydd yn gadael gofal hyd at 25 mlwydd oed. Gan dynnu ar gefnogaeth Llywodraeth Leol a'r Llywodraeth Genedlaethol, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i greu cyfres o ymrwymadau wedi eu meincnodi i'r rhai sy'n gadael gofal, waeth ble maent yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mwy o gymorth pontio i fyw yn annibynnol, profiad gwaith, cyflogaeth â thâl, cyfleoedd arloesol i ehangu gorwelion pobl sy'n gadael gofal, cynnig tai o ansawdd, fel nad yw'r un person sy'n gadael gofal yn cael ei roi mewn llety amhriodol neu heb ei reoleiddio. Ehangu'r ddarpariaeth 'Pan Rwy'n Barod' ac unrhyw gostau o gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

5) Lleoliadau Di-elw.

Cael gwared ar yr elfen gwneud elw o leoliad plentyn sydd â phrofiad o ofal. Mae pobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn teimlo'n ofidus, yn ddig ac wedi eu masnacheiddio pan fo sgysiau am gostau lleoliadau yn dod yn ffactor yn eu bywydau. Gall dileu cymhellion i wneud elw sicrhau bod pob ceiniog yn cael ei gwario ar adeiladu lleoliadau sefydlog, cefnogol a chynaliadwy, yn hytrach na chael eu harallgyfeirio i gyfranddalwyrpellennig. Gallai hyn fod yn ymagwedd nid-er-elw neu adfer cost lawn. Dylai unrhyw ymagwedd gael ei chyflwyno o dipyn i beth er mwyn sicrhau nad yw'n tarfu ar leoliadau cyfredol.



1,000 O
LEISIAU
CYMRU

Y CAMAU NESAF + EICH YMRWYMIAD

Y Camau Nesaf

Ni yw Grŵp Ymgynghorol Voices From Care Cymru, ac fe hoffem ni a'n haelodaeth ehangach o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal siarad gyda chi am eich maniffesto a chynorthwyo gyda goleuo eich gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru. Dros y misoedd nesaf, bydd Voices From Care Cymru yn rhyddhau mwy o fanylion ar sut y gallwn ni gyflawni'r hyn rydym yn galw amdano uchod, creu system ofal sydd wedi ei hadeiladu ar sefydlogrwydd, dyheadau a pherthnasau llawn cariad. Fodd bynnag, mae gennym ni un peth olaf i'w ofyn.....

Eich Ymrwymiad tuag at y Gymuned â Phrofiad o Ofal yng Nghymru.

O'm hethol yn Brif Weinidog, byddaf yn ymrwymo i, ac yn goruchwylio sgwrs genedlaethol, rhwng fy Llywodraeth a 1,00 o bobl sydd â phrofiad o ofal, erbyn Mawrth 2024.

Yn Gywir

Grŵp Ymgynghorol Cenedlaethol Voices From Care Cymru